

Cofion a Chyfarchion

- Parhawn i gofio am Elizabeth Jones (Groes) yn Ysbyty Glan Clwyd a gweddiwn ei bod yn profi gofal a chariad Duw yn ei hamgylchynu y dyddiau hyn. Yno ers y penwythnos diwethaf hefyd y mae Elizabeth Hughes (Llansannan) ond sydd dipyn yn well erbyn hyn ac yn gobeithio cael dychwelyd i'r cartref yn Y Rhyl yn y dyddiau nesaf. Mae'n dda cael adrodd fod Kate Davies (Llansannan) wedi cael dod adref o'r ysbyty. Mae eraill wedi cael amrywiol driniaethau yn ystod yr wythnos hefyd. Cofiw'n amdanynt oll yn ein gweddiâu, gan ofyn i Dduw eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.
- Llongyfarchiadau i Sian a Mike O'Sullivan (Llanefydd) ar enedigaeth mab, Thomas David Aled, brawd bach i Owain. Gweddiwn dros y teulu, ac ymunwn gyda hwy i roi diolch i Dduw am ei ddaioni yn eu hanes.

LLANW

Tybed oes mwy ohonoch fyddai â diddordeb petaem yn trefnu bws/bws mini o'r fro i fynd i Llanw fydd yn cael ei gynnal yng Nghricieth eleni rhwng Ebrill 6ed-10fed? Bydd oedfa yn cael ei chynnal am 10:00 y bore ac am 7:00 yr hwyr, gyda grwpiau bach a seminarau yn dilyn yr oedfaon, a gweithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer y prynhawniau. Os oes gennych ddiddordeb i fynd draw ar un neu fwy o'r diwrnodau, a wnewch chi adael i Mair wybod **erbyn Mawrth 16eg**, os gwelwch yn dda, fel y gallwn wneud trefniadau ar eich cyfer? Mae'r amserlen lawn i'w gweld yn y daflen wybodaeth a anfonwyd i'r eglwysi ac ar y wefan: www.llanw.org.

Gwaith Cwrs Ysgolion Sul Henaduriaeth Dyffryn Clwyd 2015

Gair i'ch atgoffa fod angen mynd â'r cyweithiau i Capel y Dyffryn, Llandyrnog **nos Lun, Mawrth 23ain** rhwng 7.00 ac 8.00. A fyddech cystal â rhoi enw'r capel a rhestr o enwau'r plant ar y gwaith, os gwelwch yn dda?

I ddod

- **CHRISTIAN VIEWPOINT** – Cyfarfod i'r merched yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel nos Lun, Mawrth 16eg am 7.30. Bydd David a Sarah Jones yn siarad am sut mae dyddiau blin yn taro pobl leol y Rhyl. £3 yn cynnwys bwffe.
- **CWRDD CHWARTER** – Nos Lun, Mawrth 23ain yng Nghapel Pendref, Rhuthun am 7.00 pan fydd y Parch. Casi Jones, Swyddog Cynnal ac Adnoddau UAC y Gogledd yn annerch.
- **WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Mawrth 28ain – Ebrill 2il, ac Ebrill 2il – 6ed. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: 0871 222 0201 / www.wordaliveevent.org
- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn Ffestri Capel Mawr, Dinbych nos Fawrth, Ebrill 28fed. Y siaradwr gwadd fydd y Parch. Christopher Prew.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 15^{fed} Mawrth 2015

Darlleniad y Dydd


Mathew 7:13-14

(BCND tud.7 / BCN: tud.7)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Pa mor bwysig yw dydd Sul yn eich bywyd chi? Roedd cadw'r Saboth yn rhywbeth o bwys mawr i'n cyndeidiau – prawf o hyn yw bod eglwys newydd wedi ymddangos yn Llansannan bron i ddwy ganrif yn ôl oherwydd dadl am dorri'r Saboth. Heno yn Oedfa'r Fro bydd Aneurin yn pregethu ar y pedwerydd gorchymyn a'r hyn y mae'n ei olygu i ni. Dewch yn llu i wrando ac i roi clod i'r Arglwydd a roddodd y Gyfraith trwy Moses, ond gras a gwirionedd trwy Iesu Grist. (Ioan 1:17)

Faint ohonoch sydd wedi bod ar goll yn ddiweddar? Oherwydd datblygiad y Sat Nav a ffonau symudol mae'n rhywbeth cymharol anghyffredin heddiw, ond er hynny dwi'n siŵr fod nifer ohonom wedi cael y profiad chwithig o sylweddoli nad oes gennym syniad lle'r ydym. A dweud y gwir mae'n rhaid cyfaddef i mi fynd ar goll ddwywaith yn olynol yn y blynyddoedd diwethaf wrth geisio darganfod un lle bwyta poblogaidd ym Mae Colwyn! Pan ydym yn cydnabod ein bod ar goll (er y gall hyn gymryd hydoedd i ddynion!) mae penderfyniad pwysig angen ei wneud – parhau i fynd ymlaen neu droi'n ôl. Yn ein darlleniad o'r Bregeth ar y Mynydd mae Iesu'n dysgu mai dau ddewis yn unig sydd i'n bywydau ninnau hefyd. Dywedodd fod yna ddau borth, dwy ffordd, a dau ben draw i'r ffyrdd hynny. Mae un porth yn ddiraferth i fynd trwyddo, y ffordd yn hawdd i'w dilyn ac yn boblogaidd. Ond rhybudd difrifol Iesu yw bod y porth llydan a'r ffordd eang, brysur yn dwyllodrus gan mai arwain at ddinistr a wna'r ffordd honno. Dyna pam y mae'n annog ei ddisgyblion i fynd trwy'r porth cyfyng ac ar y ffordd gul – er mor amhoblogaidd ydyw ac mor galed fydd y daith. Bywyd fydd ar ddiwedd y ffordd honno – y bywyd tragwyddol bendigedig y mae Crist ei hun wedi ei ennill i'w ddisgyblion trwy'r groes. Cofiw'n i Iesu mewn man arall ddweud mai ef oedd “y ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd. Nid yw neb yn dod at y Tad ond trwof fi.” (Ioan 14:6) Lle bynnag yr ydym ar daith bywyd heddiw, dylem gymryd sylw o rybudd yr Arglwydd a pheidio â bod yn 'styfnig wrth dybio ein bod yn gwybod yn well fel dynion ar goll yn eu ceir. Mae Iesu o'i gariad mawr tuag atom yn ein rhybuddio ac wedi darparu'r unig ffordd i bechaduriaid ddod at Dduw. Boed i ni felly ymateb i alwad Crist mewn ffydd, gan ildio'n hunain iddo a diolch iddo am ddod i'n byd i geisio ac achub y colledig. (Luc 19:10)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Rhodri

Darlleniad Wythnos Nesaf

Salm 65 (BCND tud.525 / BCN: tud.479)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 15^{fed}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mawrth – 17^{eg}
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher – 18^{fed}
- **Cyfarfod Chwiorydd Bro Aled** yng nghwmni Mrs Nia Royles, Trelawnyd yng Nghapel Cefn Meiriadog am 7.30.
- Iau – 19^{eg}
- **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
 - **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Ebeneser, Rhuddlan. Pwyllgor Gwaith am 4.30, Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00 a throsglwyddir y llywyddiaeth i'r Parch. Wayne Roberts.
- Gwener – 20^{fed}
- **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Sul nesaf – 22^{ain}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd y Parch. Rhun Murphy yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 15^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 22^{ain} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 15^{fed} Bydd Mr Gwilym Tudur yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 22^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Rhaghysbys Yn ystod yr oedfa bore Sul, Mawrth 29ain, fe fydd aelodau Capel Henllan yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 15^{fed} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 22^{ain} Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma – 15^{fed} Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau – 19^{eg} Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf – 22^{ain} Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 15^{fed} Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 (sylwch ar y newid) ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 22^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 15^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Gwener – 20^{fed} Cynhelir y Clwb Cinio cyntaf yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr ysgol fydd yn darparu'r cinio, a hynny am bris o £3.25 y person. Oherwydd hynny, mae'n rhaid i bawb sy'n dymuno cael cinio roi eu henwau i Eluned (540453) neu Carol (540320) **HEDDIW**, os gwelwch yn dda. Cynhelir y Clwb Cinio ar y 3ydd dydd Gwener bob mis – bydd angen yr enwau erbyn y Sul blaenorol bob tro.
- Sul nesaf – 22^{ain} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.

Dalier Sylw

- Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.